**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Grŵp Trawsbleidiol Hawliau Dynol
Human Rights Cross Party Group

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2019**

**Yn bresennol**:

| | |
|---|---|
| Helen Mary Jones AM | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol |
| Melissa Wood | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Alicja Zalesinska | Tai Pawb |
| Ross Thomas | Tai Pawb |
| Josh Hayman | Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru |
| Gethin Rhys | Cytûn |
| Ele Hicks | Diverse Cymru |
| Gill Peace | Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru |
| Bethan | |
| Catherine Fookes | Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru |
| Helen Green | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Catherine Lewis | Plant yng Nghymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC | |
| Simon Hofman | Grŵp Rhanddeiliaid y Gymdeithas Sifil |
| Adele Rose Morgan | Grŵp Rhanddeiliaid y Gymdeithas Sifil |
| Jackie Jones ASE | |

1. **Croeso**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i drydydd cyfarfod y grŵp a chafwyd cyflwyniadau.

2. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf ond nodwyd bod y flwyddyn 2018 arnynt yn hytrach na 2019.

3. **Materion yn codi**

Ysgrifennodd y Cadeirydd at y Prif Weinidog ar 23 Mai ynghylch y cwestiwn yn ymwneud â diogelwch bwyd sydd wedi'i gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol i Gymru. Derbyniwyd ymateb ar 8 Mehefin yn nodi y penderfynwyd yn ddiweddar y dylai'r tri chwestiwn gael eu cynnwys yn yr arolwg, yn cynnwys cwestiwn ar ddefnydd o fanciau bwyd, ac atodwyd rhestr o'r cwestiynau.

**Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd**

Tynnodd y Cadeirydd sylw'r rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod at y datganiad a wnaeth Jane Hutt AC, y Dirprwy
Weinidog a Phrif Chwip, ar 11 Mehefin 2019, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru (gweler wedi'i atodi). Croesawyd y newyddion bod Llywodraeth Cymru'n dechrau'r gwaith ar y ddyletswydd sosioeconomaidd, ond tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd amserlen weithio'i llunio i ddatblygu'r gwaith hwn. Bydd y Cadeirydd felly'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ar ran y Grŵp yn gofyn am eglurhad ar hyn. Roedd y rheini a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn poeni nad oedd gwaith ymgorffori'n mynd rhagddo'n ddigon cyflym. Cydnabuwyd, fodd bynnag, fod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch amddiffyn hawliau dynol ac ati wedi mynd rhagddynt, gyda rhagdybiaeth bendant y byddai Brexit yn digwydd yn gefndir i'r trafodaethau hynny. Gan fod y dyfodol bellach yn fwy ansicr, bydd y Cadeirydd yn cael trafodaeth arall gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y dulliau o amddiffyn.

Dywedodd y Cadeirydd wrth y rhai a oedd yn bresennol yn y cyfarfod y byddai hi'n hoffi cyfarfod hwy gyda'r grŵp, yn para hanner diwrnod, ddydd Llun neu ddydd Gwener yn hwyr ym mis Medi. Gallai'r cyfarfod fod yn gyfle i ystyried beth rydym ni fel grŵp am ei gyflawni, beth yw ein agwedd strategol a sut y gallwn ddylanwadu'n uniongyrchol ar yr agenda hawliau dynol yn y Cynulliad yn y flwyddyn i ddod. Cytunwyd ar yr awgrym hwn.

**Camau Gweithredu** – dylai'r Cadeirydd wneud y canlynol: 1) ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ar yr amserlen ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd sosioeconomaidd, a 2) cynnal trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ymgorfforiad.

4. **Siaradwr gwadd 1**

Cyflwynodd y Cadeirydd, Melissa Wood, y siaradwr gwadd o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol er mwyn siarad am CEDAW (Confensiwn y CU ar Atal Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod) a'r broses fonitro.  Nodwyd nad oedd yr ASE Jackie Jones, a oedd wedi gweithio gyda Melissa wrth ymwneud â'r gwaith monitro yn ei rôl blaenorol, wedi gallu bod yn bresennol gan ei bod hi'n gweithio yn Senedd Ewrop heddiw.

Rhoddodd Melissa Wood gyflwyniad diddorol iawn a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y fframwaith rhyngwladol ar gyfer hawliau dynol; y cytuniad; safbwynt Cymru o ran monitro confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod; sut i

ddefnyddio'r broses o fonitro'r cytuniad fel lifer, awgrymiadau a chamau nesaf. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd wedi'u nodi isod:-

- Mae saith cytuniad ar hawliau dynol, ac mae'r DU wedi arwyddo pob un ohonynt. Mae rhai cytuniadau'n ymwneud â materion penodol, ac eraill yn rhoi ffocws ar grwpiau targed penodol. Er na ellir gorfodi'r hawliau yn y cytuniadau yn gyfreithiol yn llysoedd y DU, maen nhw'n cael eu hystyried yn rhwymedigaethau sy'n rhwymo mewn cyfraith ryngwladol. Felly, gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Senedd a'r gymdeithas sifil ofyn i'r Llywodraeth gyfeirio'n ôl at delerau'r cytuniadau.
- Mae pob cytuniad sy'n dilyn yr un broses yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Mae Llywodraeth y DU yn ysgrifennu adroddiad sy'n tynnu sylw at yr hyn maen nhw wedi'i wneud er mwyn cyflawni rhwymedigaethau'r cytuniad. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn ysgrifennu adroddiad cysgodol sy'n rhoi eu hasesiad nhw o gynnydd y DU tra hefyd yn amlinellu awgrymiadau ynghylch y ffordd ymlaen, ac o bryd i'w gilydd mae'n cynorthwyo'r gymdeithas sifil i wneud yr un peth. Mae'r Pwyllgor wedyn yn asesu cynrychiolwyr Llywodraeth y DU, ac mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei sylwadau terfynol. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r gymdeithas sifil wedyn yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU ac ar lywodraethau datganoledig i roi'r argymhellion ar waith. Mae monitro cytuniadau'n rhan greiddiol o waith y Comisiwn ac yn ffordd allweddol o ddal y Llywodraeth i gyfrif.
- Mae Confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod wedi'i gadarnhau gan 189 o wladwriaethau sy'n barti. Mae'r rheini nad ydynt wedi'i gadarnhau yn cynnwys Esgobaeth y Pab, Iran, Tonga a Sudan. Mae'r Confensiwn yn sefydlu bil rhyngwladol o hawliau ar gyfer menywod ac agenda i sicrhau bod gwledydd yn gweithredu i roi'r hawliau hyn ar waith. Cadarnhaodd Llywodraeth y DU gytuniad confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod yn 1986 a chafwyd yr archwiliad diwethaf ohono ym mis Chwefror 2019.
- Ariannodd y comisiwn Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru a dau grŵp arall i ysgrifennu adroddiad cysgodol a fyddai'n sicrhau bod Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn gwrando ar leisiau menywod y DU.
- Roedd sylwadau terfynol y Pwyllgor yn cynnwys y canlynol:-

**Fframwaith deddfwriaethol a pholisi** – ymgorffori holl ddarpariaeth y Confensiwn mewn deddfwriaeth; sicrhau bod dyletswydd y sector gyhoeddus o ran cydraddoldeb yn cael ei rhoi ar waith; adolygu dyletswydd y sector gyhoeddus o ran cydraddoldeb; gwneud asesiad manwl o effaith cyni ar fenywod a mabwysiadu mesurau er mwyn lliniaru a gwella unrhyw effeithiau negyddol.

**Trais yn erbyn menywod a merched ar sail rhywedd** – mabwysiadu mesurau polisi deddfwriaethol a manwl er mwyn amddiffyn menywod rhag pob math o drais ar sail rhywedd drwy awdurdodaeth y wladwriaeth sy'n barti, gan gynnwys Gogledd Iwerddon, er mwyn sicrhau bod menywod sy'n ceisio lloches, menywod sy'n fudwyr, a menywod sydd â statws ansicr o ran mewnfudo yn gallu cael eu hamddiffyn a hefyd yn gallu dod o hyd i wasanaethau cymorth heb bod eu statws fel mewnfudwyr yn cael ei adrodd i'r awdurdodau.

**Cymryd rhan** - Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wladwriaeth sy'n barti yn gosod mesurau penodol sydd wedi'u targedu, gan gynnwys mesurau penodol dros dro, er mwyn gwella'r gynrychiolaeth o fenywod, gan gynnwys menywod duon ac o leiafrifoedd ethnig a menywod sydd ag anableddau, yn y Senedd ac ati.

**Gwaith** - Parhau i fod yn rhagweithiol ac i roi mesurau penodol ar waith er mwyn cynyddu'r gynrychiolaeth o fenywod mewn swyddi lle maent yn gwneud penderfyniadau yn y gweithle.

**Addysg -** Gwneud mwy o ymdrech i annog merched i astudio pynciau anhraddodiadol ac i astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg; cyflwyno addysg ryw ac addysg ar hawliau atgynhyrchiol gorfodol mewn ysgolion sy'n addas ar gyfer oedrannau penodol a hyrwyddo addysg ar hawliau dynol sy'n cynnwys rhoi ffocws ar rymuso menywod a'r Confensiwn.

- Mae'r tîm wedi cwrdd â'r Dirprwy Weinidog ac wedi gofyn sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi'r argymhellion ar waith. Dylai fframwaith o dryloywder ac atebolrwydd fod yn sail i unrhyw ymrwymiadau. Byddai ymgorffori confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod mewn cyfraith ddomestig wrth greu dull cenedlaethol o arolygu'r gwaith o weithredu yn ffordd ymlaen. Argymhellir hefyd bod confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod yn cael ei ystyried fel rhan o'r Adolygiad o Gydraddoldeb o ran Rhywedd.

### 5. Trafodaeth agored ar y cyflwyniad a'r ffordd ymlaen

Cafodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ei ariannu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a'r Sefydliad Bevan i ysgrifennu adroddiad cysgodol. Mae 10 sefydliad wedi ymuno ag ef er mwyn cefnogi'r cynnwys. Roedd yr adolygiad yn edrych ar y gwaith ymgorffori gyda'r nod o fynd drwy'r confensiwn ac yna ei roi ar waith. Deallir y bydd hyn yn cymryd amser hir i'w gyflawni, felly, yn y cyfamser, gellir rhoi mesurau dros dro ar waith, megis cael rhaniad 50:50 o fenywod yn gweithio mewn bywyd cyhoeddus, ac o bosibl cyflwyno mesur arbennig lle bydd nifer hafal o ddynion a menywod yn sefyll mewn etholiadau.

Mae confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod hefyd yn cael ei ddefnyddio fel cyfrwng i bwyso i gael hawl i erthylu yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn yn enghraifft o ddefnyddio'r agenda i sicrhau bod newid yn digwydd. Enghraifft arall oedd adsefydlu'r Senedd Ieuenctid yn dilyn beirniadaeth gan gonfensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod nad oedd un gan Gymru bellach. Teimlai'r grŵp fod diffyg ymwybyddiaeth o'r cytuniadau a sut y gallant gael eu defnyddio ymysg rhanddeiliaid ac o fewn y Cynulliad Cenedlaethol. Mae angen i hyn newid.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn datblygu offeryn/traciwr hawliau dynol a fydd yn caniatau i'r gymdeithas sifil edrych ar y prif argymhelliad ar gyfer yr holl gytuniadau ac asesu pa mor dda y mae'r DU a Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael ag ef. Gofynnwyd p'un a oedd angen fframwaith newydd o hawliau gorfodol ar gyfer Cymru a thynnwyd sylw at y ffaith nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) yn caniatáu i ni osod sancsiynau ar sefydliadau pan na fyddant yn cydymffurfio, ac mai adolygiad barnwrol yw'r unig sancsiwn.

**Camau gweithredu** :-Bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip er mwyn gofyn sut y mae confensiwn y CU ar atal pob math o wahaniaethu yn erbyn menywod yn cael ei roi ar waith a'i fonitro gan Lywodraeth Cymru.

**Siaradwr gwadd 2**

Cyflwynodd y Cadeirydd Alicja Zalesinska, Cyfarwyddwr Tai Pawb, a roddodd gyflwyniad diddorol iawn ar yr Hawl i Dai Digonol yng Nghymru a'r gwaith o ymgorffori'r hawl hwn yng nghyfraith Cymru. Mae crynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd wedi'u nodi isod:-

- Rydym mewn sefyllfa sy'n gritigol yn barhaus ac mae angen ymrwymiad cenedlaethol arnom i sicrhau hawl i dai digonol sydd wedi'i seilio ar fframwaith cyfreithiol.
- Comisiynwyd adolygiad ar y cyd yn ymwneud â hyn gan Tai Pawb, CIH Cymru a Shelter Cymru, a ysgrifennwyd gan Dr Simon Hoffman, sef 'Yr Hawl i Dai Digonol yng Nghymru: Adroddiad Dichonoldeb'.
- Mae'r adroddiad yn edrych ar yr effeithiau cadarnhaol y byddai ymgorffori'r hawl i dai digonol, sydd wedi'i ddiogelu gan y cenhedloedd unedig, yn eu cael ar Gymru, gan helpu i fynd i'r afael â digartrefedd a'r prinder difrifol o dai fforddiadwy.
- Drwy ddefnyddio adnoddau i'r eithaf, byddai'n bosibl cyflawni'r nod o greu hawl i dai digonol gydag amser.
- Gellid mabwysiadu lefel greiddiol leiaf o ran yr hawl i dai a gellid ystyried digartrefedd yn rhywbeth sy'n torri'r hawl hwnnw.
- Mae darparu tai'n golygu mynd y tu hwnt i ddarparu lloches. Dylai darparu tai digonol gynnwys sicrwydd deiliadaeth, a dylai tai fod yn fforddiadwy, yn gyfanheddol ac yn hygyrch. Mae gwledydd megis Canada, y Ffindir, De Affrica a nifer o ddinasoedd a gwledydd Ewropeaidd wedi cynnwys yr hawl i dai yn eu darpariaeth o wasanaethau cymdeithasol.
- Mae'r adroddiad yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno Deddf Tai Cymru ond nid yw hyn yn ddigon i gyrraedd safonau'r cenhedloedd unedig.
- Mae angen dull gweithredu wedi'i seilio ar hawliau sy'n ymgorffori'r hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru. Gellid cyflawni hyn drwy ddefnyddio dull gweithredu anuniongyrchol gyda'i ffocws ar sylw dyledus, dull gweithredu uniongyrchol yn debyg i'r Ddeddf Hawliau Dynol neu ddull gweithredu gyfunol sy'n cyfuno'r ddau opsiwn. Yr opsiwn a ffefrir yw'r dull gweithredu gyfunol – sylw dyledus a gorfodaeth.
- Mae'r adroddiad yn ystyried sut mae'r hawl i dai yn helpu i roi'r mesurau sydd eisoes yn bodoli ar waith, megis y Mesur Hawliau Plant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Y prif egwyddor yw bod cael tŷ yn hawl dynol a bod angen ei ymgorffori mewn polisi, a dylid ystyried pobl yn ddeiliaid hawliau yn hytrach nag yn bobl sy'n derbyn cymorth elusennol.

- Cafwyd ymateb cadarnhaol wedi i'r adroddiad ac mae wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd, i sicrhau bod gan bobl hawl i ddeiliadaeth, i gynyddu'r ddarpariaeth o dai hygyrch, i ganiatáu i lais y tenant gael ei glywed ac i gynorthwyo pobl ifanc i ddod o hyd i dai.
- Mae Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol , wedi croesawu'r adroddiad ond wedi gofyn: sut y gallwch fod ag hawl i dŷ os nad oes digon o dai ar gael? Yr wrthddadl i hyn yw ei fod yn bwysig pennu amcanion uchelgeisiol, gan seilio'r hawl i dai ar gyflawni pethau dipyn wrth dipyn (nid oes yn rhaid i bopeth fod ar waith yn syth).

**Trafodaeth agored ar y cyflwyniad a'r ffordd ymlaen**

Mae'n bwysig ymgysylltu â'r cyhoedd yn ogystal â rhanddeiliaid ar y mater hwn. Bydd cyfle yn y dyfodol i bleidiau gynnwys yr hawl i dai fforddiadwy yn eu maniffestos. Roedd pawb yn derbyn na ddylai'r ddadl bod prinder tai atal cyflwyno'r hawl i dai digonol. Derbyniwyd ei fod yn bwysig edrych ar yr effaith ar awdurdodau lleol o ran adnoddau, ond gall ddeddfwriaeth ysgogi darpariaeth a gellid datrys y broblem o brinder tai gan roi pethau ar waith yn raddol.

Mae angen yr hawl orfodol i dai, ond mae hefyd angen cymorth i gael mynediad at yr hawl hon, a nodwyd na fyddai pobl yn gallu mynd a'u hachosion i'r llys os nad oes ganddyn nhw fynediad at gymorth cyfreithiol. Felly, mae'n rhaid i ni greu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru, a chyflwyno cymorth cyfreithiol Cymreig.

Nodwyd y broblem rhyw am rent a bod Housing Women Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o ariannu ymchwil i hyn. Nodwyd hefyd y gellid creu cod ymarfer.

**Rhannu gwybodaeth**

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ariannu prosiect ymchwil sy'n edrych ar hawliau dynol a chydraddoldeb.
- Ar 10 Hydref, bydd Cynhadledd ar Hawliau Menywod yn cael ei gynnal yng Nghymru. Ar 20 Tachwedd, bydd digwyddiad yn dathlu 30 mlynedd o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yn cael ei gynnal. Bydd yn cydnabod siwrnai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn yng Nghymru ac yn ystyried beth ddylid ei wneud yn y dyfodol.

**Y cyfarfod nesaf**

Bydd hyn yn cael ei gynnal ym mis Medi – mae'r dyddiad i'w gadarnhau. Bydd y cyfarfod yn para hanner diwrnod ac yn canolbwyntio ar ddull strategol y grŵp o weithredu dros y flwyddyn nesaf.